| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Hyfforddwr Ffitrwydd |
| Uned/Ysgol: | Chwaraeon Met Caerdydd |
| Gradd: | 3A/B |
| HERA: | CMETS |

**Prif bwrpas y rôl**

Chwaraeon Met Caerdydd yw'r grym y tu ôl i chwaraeon, gweithgarwch corfforol, iechyd a llesiant ym Mhrifddinas Cymru. Mae ein cenhadaeth yn glir - 'gwella bywydau ein cymunedau yn sylweddol, gan eu gwneud yn iachach ac yn gryfach o ganlyniad i ymgysylltu â ni'. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu a rheoli cyfleusterau chwaraeon sy'n arwain y sector gan gynnwys, y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol, Canolfan Tenis ac Arena'r Saethwyr ar ein Campws Cyncoed ynghyd â nifer o Ysgolion yr 21ain Ganrif ledled y Ddinas.

Rydym hefyd yn arwain yn strategol wrth ddarparu amrywiaeth eang o raglenni datblygu blaengar ar draws ysgolion, cymunedau, clybiau, y gweithlu, ac iechyd a lles ar ein campysau a ledled Caerdydd. Er mwyn parhau i gyflawni hyn i gyd, mae angen 'ysgogwyr newid' arnom, gall pobl â brwdfrydedd, angerdd, creadigrwydd a dawn sy'n gweld rhwystrau yn hytrach na phroblemau, feddwl yn wahanol ac eisiau cael effaith gadarnhaol a pharhaol ar fywydau pobl, yng Nghymru a thu hwnt.

Fel Hyfforddwr Ffitrwydd, byddwch yn cynorthwyo'r Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon, effeithiol ac economaidd a defnyddio adnoddau i fodloni gofynion Met Heini a Chwaraeon Met Caerdydd. O dan gyfarwyddyd y Rheolwr Ffitrwydd i sicrhau bod y cyfleusterau chwaraeon a'r ardaloedd cysylltiedig, y rhaglen chwaraeon a'r gwasanaethau a ddarperir o'r safon uchaf yn ystod oriau agor.

Byddwch yn weithiwr proffesiynol brwdfrydig a chyfeillgar gyda sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, staff a'r gymuned.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Gweithio yng Nghanolfannau Ffitrwydd Cyncoed a Llandaf, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol. Dyletswyddau i gynnwys:
  - Cynorthwyo'r Rheolwr Ffitrwydd i weithredu hyfforddiant sefydlu, profion ffitrwydd, personol, rhaglenni ffitrwydd, a sicrhau bod anghenion myfyrwyr, staff, grwpiau anabl a defnyddwyr allanol yn cael eu diwallu.
  - Darparu presenoldeb a chyfrifoldeb clir dros y Canolfannau, yr offer a'r cwsmeriaid yn ystod oriau dyletswydd.

- Bod yn gyfrifol am lanhau bob dydd, a gwiriadau / cynnal a chadw'r offer ffitrwydd ac i lanhau'r Canolfannau a'r ardaloedd cysylltiedig yn ôl yr angen.

- Cyflwyno / cyfarwyddo dosbarthiadau ffitrwydd ar y cyd ag amserlen y dosbarth ffitrwydd.

- Rhoi cefnogaeth i'r Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol wrth ddarparu a hyrwyddo mentrau prifysgol iach.

- Cynorthwyo'r Rheolwyr Dyletswydd i roi'r rhaglen chwaraeon ar waith, gan sicrhau bod anghenion myfyrwyr, staff a defnyddwyr allanol yn cael eu diwallu ar Gampysau Cyncoed a Llandaf.

- Cynorthwyo i hyrwyddo'r Aelodaeth Chwaraeon a Ffitrwydd a rhoi aelodaeth i fyfyrwyr, staff a chwsmeriaid allanol.

- Gwirio archebion a herio mynediad anawdurdodedig ac atal defnydd amhriodol neu anghyfreithlon o'r cyfleusterau ac offer chwaraeon.

- Darparu cefnogaeth o fewn y strwythur staffio a chyflawni dyletswyddau aelod eraill o'r tîm chwaraeon os fydd absenoldeb, gwyliau neu salwch.

- Delio ag eitemau eiddo coll a chofnodi a storio eitemau mewn modd priodol ar y cyd â'r Rheolwr Iechyd a Ffitrwydd.

- Cefnogi'r Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol gyda menter farchnata fewnol ac allanol a hyrwyddiadau i gyflawni'r defnydd mwyaf posibl.

- Ymgymryd â meysydd cyfrifoldeb ar wahân eraill a/neu brosiectau penodol yn ôl y gofyn ac y cytunir arnynt, o bryd i'w gilydd gan y Rheolwr Ffordd o Fyw Egnïol a/neu'r Rheolwr Iechyd a Ffitrwydd

- Gweithredu fel hyrwyddwr brand i'r brifysgol trwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiadau, a sicrhau bod ein gwaith a'n dull yn gyson â'n gwerthoedd a'n harfer gorau.

## Manyleb person

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol**

- Cymhwyster Lefel 2 REPS / CIMSPA.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Profiad o weithio o fewn amgylchedd Iechyd a Ffitrwydd.

2. Profiad o gyflwyno dosbarthiadau ffitrwydd.

3. Dealltwriaeth dda o faterion gofal cwsmeriaid ac iechyd a diogelwch.
4. Y gallu i weithio yr un mor gyfforddus fel rhan o dîm ac yn annibynnol.
5. Sgiliau cyfathrebu a rheoli amser effeithiol.
6. Sgiliau trefnu da.

**Dymunol**

1. Profiad o fentrau marchnata a chadw fel atgyfeiriadau ymarfer corff, ymgynghoriaeth bersonol a phrofi ffitrwydd

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr** Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol** Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd** Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch** Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl** Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth** Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS manylach.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.